❖ Carol Nadolig

Brysiwch bawb i Fethlehem,
Dewch i weld rhyfeddod,
Baban bach mewn gwely gwael,
Unig Fab y Duwdod.

D'wedodd y proffwydi gynt
Ei fod Ef ar ddyfod,
Wele'r anfonedig rodd,
Unig Fab y Duwdod.

Ymgnawdoliad yw o'i Dad,
Ganddo fe gawn wybod
Mai Gwaredwr ydyw ef,
Unig Fab y Duwdod.

Gorffwys ar y Sanctaidd Un
Ysbryd gras a chymod,
Llawn doethineb nefol yw
Unig Fab y Duwdod.

Plygu i'w addoli wnawn,
Gan gyffesu'n pechod,
Yn y crud mae Ceidwad Byd,
Unig Fab y Duwdod.

Carey Jones